LC275

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu bod y Cynulliad Cenedlaethol yn pennu pa awdurdodau lleol a gaiff weithredu “trefniadau amgen” at ddibenion cyflawni eu swyddogaethau yn hytrach na’r egwyddor ynghylch gweithredu gweithrediaeth.

Mae rheoliadau gyda’r un teitl (OS 2001/1299) wedi’u gwneud ar gyfer Lloegr, ond mae’r rhain yn sylweddol wahanol i reoliadau Cymru.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o’r rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.

Erys rhai mân bwyntiau, serch hynny:

- Rheoliad 4 (2)(a)-(c) – mae’r geiriau “a/neu” wedi’u cadw’n anghywir o ddrafft cynharach yn y testun Cymraeg.
- Rheoliad 6 (3) – mae’r cromfachau wedi’u hepgor o (3) yn y testun Cymraeg.
- Rheoliad 6 (3) – mae yna anghysondeb rhwng paragraff (d) yn y testun Cymraeg a’r paragraff cyfatebol yn y testun Saesneg, sef paragraff (e). Mae’r cyntaf yn cyfeirio at baragraff (i), ond mae’r olaf yn cyfeirio at is-baragraff (a).
- Rheoliad 6 (5) – mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at baragraff (6), ond mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at baragraff (5).
- Rheoliad 10 (9) (a) – mae’r geiriau “or any” wedi’u gadael yn anghywir yn y testun Saesneg yn dilyn diwygiad drafftio cynharach.

- Atodlen 1, Rhan A, paragraff 32 – mae “Pwerau yn” wedi’u rhedeg yn un.
- Atodlen 2, paragraff 9 – 1999, wedi’i ailadrodd yn anghywir yn y testun Cymraeg.
- Atodlen 2, paragraff 20 – “mewn” wedi’i gamargraffu.

Ar yr amod bod y pwyntiau hyn yn cael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau, mae’r Pwyllgor yn gallu adrodd nad oes dim pwyntiau y mae angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Dylai’r pwyntiau canlynol yn y Nodyn Esboniadol gael eu cywiro hefyd.

**Y Nodyn Esboniadol - y trydydd paragraff**

Yn ôl hwn, wyth yw uchafswm y pwyllgorau y gellir eu sefydlu. Er hynny, o dan Reoliad 4(1)(c), mae’n ymddangos mai chwech yw’r uchafswm.

**Y Nodyn Esboniadol – yr unfed paragraff ar ddeg**

Credir y dylai’r cyfeiriad at “rheoliad 6(3)(a)” fod yn gyfeiriad at “rheoliad 6(3)” yn unig. Hefyd, dylai’r cyfeiriad at “rheoliad 6(3)(b)” fod yn gyfeiriad at “rheoliad 6(4)”.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

5 Mehefin 2001